

# CABINET CYNGOR GWYNEDD



## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>28/09/21</b>
<b>Aelod Cabinet:</b>	<b>Y Cynghorydd Nia Jeffreys</b>
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	<b>Geraint Owen</b>
<b>Rhif Ffon Cyswllt:</b>	<b>01286 679335</b>
<b>Teitl yr Eitem:</b>	<b>Adroddiad Blynyddol Iechyd, Diogelwch a Llesiant</b>

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Cyflwynir yr adroddiad er mwyn rhoi diweddariad allweddol i aelodau y Cabinet ar faterion iechyd diogelwch a llesiant tros y flwyddyn 20/21 a gofynnir i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae cyflwyno'r adroddiad hon ger bron y Cabinet yn flynyddol yn ran o drefniadau rheoli iechyd a diogelwch o fewn y Cyngor. Mae'n hanfodol fod gan aelodau'r Cabinet drosolwg llawn o sefyllfa'r Cyngor yn y maes pwysig yma.

### 3 CYFLWYNIAD

Bu 2020/21 yn flwyddyn na welwyd ei math o'r blaen o fewn y Cyngor, ac yn sicr ddim felly o bersbectif iechyd a diogelwch. Bu'n flwyddyn heriol eithriadol ble roedd pob penderfyniad a oedd yn cael ei gymryd yn ystod argyfwng y pandemig a'r potensial i effeithio ar iechyd, diogelwch a llesiant staff a thrigolion Gwynedd mewn rhyw ffordd. Bu i raglenni gwaith a materion oedd yn flaenoriaethau cyn Mawrth 2020 gael eu trawsnewid bron a bod tros nos, a'r ffocws i gyd ar gadw pobl yn ddiogel.


Nid syndod felly fod galw ar y Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant wedi bod yn uchel iawn, a gwaith y Gwasanaeth wedi ei gymryd fyny yn llawn yn delio gyda'r argyfwng unai yn uniongyrchol, neu'n an-uniongyrchol gyda ychydig iawn o amser ar gael i faterion eraill.

## Ffigyrau Damweiniau

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o ffigyrau digwyddiadau a damweiniau RIDDOR am y 4 mlynedd ddiwethaf. Rhain yw'r digwyddiadau mwyaf difrifol sydd wedi digwydd yn fewnol yn y Cyngor i staff, a ble fo aelodau o'r cyhoedd wedi eu hanafu ar safle'r Cyngor, ble y bu yn rhaid eu hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID). Eleni, fe ychwanegwyd gofyniad i'r rheoliadau yma i adrodd ar achosion o staff yn dal COVID. Hynny, dim ond ble roedd sail rhesymol i gredu eu bod wedi ei ddal yn y gwaith, a dyna yw'r rheswm am y cynnydd sylweddol yn ffigyrau.


Adroddwyd ar 73 achos o aelodau staff wedi dal COVID yn eu gwaith yn ystod 20/21. Nid yw wrth gwrs yn bosibl cadarnhau hynny yn bendant ond mae'r gofyn i adrodd pan fo sail rhesymol i ddod i gasgliad y gallent fod wedi ei ddal yn y gwaith e.e. un ai trwy aelod o staff positif yn rhoi gofal i glaf positif, yn cydweithio hefo staff positif, neu blentyn positif mewn dosbarth ble fo athro wedyn yn datblygu'r haint. Y ddwy garfan staff a effeithiwyd oedd staff gofal a staff ysgolion. Mae'r ddwy don gyntaf o COVID yn sefyll allan yn glir ar y tabl.

Bu dau aelod o staff Gofal yn ddifrifol wael yn yr ysbyty yn ystod y flwyddyn ond maent bellach yn gwneud adferiad er fod 'long covid' yn gyflwr sy'n peri problemau mwy hir dymor i sawl aelod staff.



Os rhoir ffigyrau COVID o'r neilltu, roedd gostyngiad yn y nifer o ddigwyddiadau a adroddwyd fel arall o dan RIDDOR am llynedd, ond o ystyried y cyfnodau hir ble nad oedd sawl elfen o wasanaethau'r Cyngor yn weithredol (gan gynnwys ysgolion), ni ellir gwneud unrhyw gasgliadau o hynny.


Mae'r siart isod yn amlinellu niferoedd yr achosion RIDDOR tros y 4 mlynedd ddiwethaf.



Fe welir (ag eithrio COVID) fod dau gategori damwain yn gyfrifol am bron i ddau draean y nifer damweiniau yn flynyddol, a'r categorïau hynny yw llithro a baglu, a symud a thrin pwysau. Mae hyn yn adlewyrchu patrwm cenedlaethol a gaiff ei adlewyrchu yn y math o hawliadau am anafiadau sy'n cyrraedd.

Un Gwasanaeth penodol ble mae cynnydd wedi bod yn yr anafiadau cyhyrsgerbydol trwy symud a thrin tros y blynyddoedd diwethaf yw'r Gwasanaeth Casglu Gwastraff. Mae sawl rheswm am hyn gan gynnwys y ffaith fod mwy o ailgylchu yn digwydd nag erioed a phatrwm gwaith y Gwasanaeth yn gyffredinol wedi newid tros y blynyddoedd, ond mae rhain yn anafiadau ble fo y gweithiwr wedi colli o leiaf 7 diwrnod gwaith oherwydd anaf. Yn aml, mae'r cyfnod absenoldeb yn llawer hirach sydd, nid yn unig yn gostau sylweddol i'r Gwasanaeth, cyn sôn am hawliadau sifil all ddeillio ohonynt ond hefyd yn bryder o ran difrifoldeb yr anafiadau i weithwyr.

Mae hwn wrth gwrs yn Wasanaeth allweddol sydd wedi parhau tros y cyfnod clo. Amlinellir y patrwm yn y niferoedd achosion RIDDOR yn y Gwasanaeth yma tros y 4 mlynedd ddiwethaf o'i gymharu a'r Gwasanaeth Darparu (Oedolion) ble fo ffigyrau yn hanesyddol wedi bod uchaf, ond ble fo llawer o ymyraethau ac adnodd wedi eu rhoi mewn lle i leihau anafiadau tros y blynyddoedd wrth symud a thrin cleientiaid. Mae'r cyferbyniad yn amlwg, gyda chynnydd cyffredinol mewn un sector, a gostyngiad yn y llall. I'r pwrpas yma, mae prosiect ar waith gan y Gwasanaeth Bwrdeistrefol ar y cyd â'r Tîm Iechyd a Diogelwch yn edrych yn benodol ar anafiadau symud a thrin yn y Gwasanaeth, gan edrych ar bob agwedd o'r gwaith i gynnwys y cerbydau, patrymau gwaith, hyfforddiant, a gallu corfforol y gweithwyr.



## PPE

Bu dyddiau cynnar y pandemig yn rai heriol iawn o ran argaeledd PPE i staff gofal. Cyhoeddwyd canllawiau yn gynnar iawn yn y pandemig o ran y math o PPE y dylai staff gofal fod yn eu defnyddio, ac o dan ba amgylchiadau. Roedd PPE yn anodd iawn ei gaffael a bu ymdrechion traws-adrannol i gydlynu rhoddion o'r gymuned fusnes ac yn lleol a'u cyfeirio i'r maes gofal. Yn raddol, tros y misoedd sefydlwyd trefn o ddsbarthu PPE gan y Llywodraeth ac mae'r cyflenwad hwnnw yn ateb gofyn y maes Gofal yn parhau i fod. Bellach mae system effeithiol wedi ei sefydlu i fonitro lefelau stoc, warws i ddal a dosbarthu ac adrodd ar lefelau i ddashfwrdd argyfwng y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi bod yn Caffael stoc o PPE i bob Adran arall o fewn y Cyngor ag eithrio Gofal ac mae hyfforddiant 'donning and doffing' wedi bod yn cael ei gynnal i staff Gofal er mwyn sicrhau eu bod yn ei wisgo a'i dynnu mewn modd diogel. Mae'r hyfforddiant hwnnw bellach yn fyw fel pecyn e-ddysgu.

Mae na rai mathau o waith yn y Sector Gofal a ddiffinnir fel gwaith risg uwch o dan COVID. Fe'u gelwir yn 'aerosol generating procedures'. Triniaethau yw'r rhain megis rhoi gofal i unigolion sydd ar beiriannau anadlol arbennig megis 'ventilators' ayb. Yn yr achosion hyn, mae gofyn i'r gofalwyr wisgo masgiau resbiradol i spec llawer uwch ble fo angen prawf 'ffit wyneb (face fit) i sicrhau fod sêl perffaith rhwng y masg a wyneb y gofalwr. Mae'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch wedi bod yn cynnal y profion hyn ar y gofalwyr perthnasol trwy gydol yr argyfwng.

## Staff Bregus

Yn fuan iawn yn y pandemig daeth yn amlwg fod rhai carfannau o'r boblogaeth yn fwy bregus nag eraill. Roedd dwy garfan yn fras – y garfan fregus a oedd yn cael cynnig y frechiad fflw yn flynyddol ar sail iechyd, a'r garfan fregus eithriadol a oedd yn cael eu cynghori i gysgodi. Gosodwyd gofyniad ar gyflogwyr i warchod y ddwy garfan staff ac asesu y risgiau i'w iechyd. Sefydlwyd trefn felly fod pob un yn cael eu cyfeirio at y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol am ymgynghoriad 1 i 1 hefo nyrs er mwyn gallu cynnig

argymhellion i Reolwr ar sut i wneud addasiadau i'r swydd benodol nhw a fyddai yn eu gwarchod. Mewn rhai achosion, roedd addasiadau yn amhosibl ac fe'u cynghorwyd i aros adref, ond mewn achosion eraill roedd yn bosibl adnabod mesurau a fyddai yn lleihau y risg megis arall gyfeirio, cyfyngu dyletswyddau. Roedd hon yn drefn allweddol i fod wedi ei rhoi mewn lle er mwyn gwarchod y staff mwyaf bregus – ni fu 'run o weithwyr bregus y Cyngor yn ddifrifol wael wedi mabwysiadu y drefn hon. Bu i 579 o staff gael eu cyfeirio o dan y drefn.

Erbyn hyn, mae trefniadau mewn lle i adolygu yr asesiadau bregusrwydd yn ddibynnol ar statws brechiadau y gweithwyr, eu maes gwaith, a lefel y feirws yn y gymuned.

### **Asesiadau Risg**

Roedd asesiadau risg cwbl drylwyr yn hanfodol i gynnal gwasanaeth allweddol yn ddiogel tros gyfnod dwy don gyntaf y pandemig, ac yn fwy diweddar, roedd hefyd yn ofyniad hanfodol er mwyn gallu adfer Gwasanaethau oedd wedi cau lawr yn ddiogel. Fe wnaeth hyn olygu pwysau gwaith sylweddol ar y tîm canolog oedd yn cynghori ar gynnwys yr asesiadau, darparu canllawiau corfforaethol er mwyn sicrhau cysondeb, a chyd-gordio gyda awdurdodau iechyd cyhoeddus. Roedd gofyn fel enghraifft i wirio trefniadau pob ysgol yn unigol yn aml ar amserlen dyn iawn. Mae'r Cyngor wedi ymateb i'r gofyn yma ac mae pob Gwasanaeth wedi gweithredu ac adfer yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth ar y pryd, ac mae'r Tîm Iechyd a Diogelwch wedi bod yn allan yn gwirio y trefniadau hyn trwy gydol y pandemig ar draws safleoedd y Cyngor.

Mae trefniadau yn llawer mwy aeddfed erbyn hyn a'r holl weithlu sy'n methu gweithio o adref yn cael cynnig gwneud prawf LFT ddwy waith yr wythnos.

Mae gwaith cyson a dwys hefyd wedi digwydd i gynnal asesiadau risg ac asesiadau gweithfan ar staff sy'n gweithio o adref ac mae hyn wedi golygu cyd-gordio i rai staff dderbyn eu hoffer swyddfa wedi ei gludo i'w cartref. Bu hwn oll yn brosiect i'w gydlyn. Erbyn hyn, mae'r gwaith yn rhoi ffocws ar y normal newydd a pharatoi am ddychwelyd i'r swyddfa.

### **Gorfodaeth**

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID) wedi cynnal sawl archwiliad ar adeiladau a safleoedd y Cyngor tros gyfnod yr argyfwng yn gwirio safonau a sicrhau ein bod fel cyflogwyr yn cydymffurfio â'r holl ofynion er mwyn darparu adeiladau COVID-ddiogel (COVID secure). Roedd y gwiriadau yn gyfuniad o holiaduron ar y ffôn ac ymweliadau safle. Targedwyd oddeutu 10 o ysgolion y Sir, gweithdai Priffyrdd a Bwrdeistrefol ynghyd a'r prif swyddfeydd a ni gymerwyd unrhyw gamau gorfodaeth. Yn gyffredinol roedd yr arolygwyr yn fodlon hefo'r trefniadau mewn lle.

Bu un archwiliad arall yn ystod y flwyddyn gan AGID, a hynny ar y safle Caerylchu yn Cibyn. Oherwydd natur y safle mae hwn yn un o safleoedd risg uchaf sydd gan y Cyngor o ran diogelwch, a bu dau arolygwr yn treulio y diwrnod yno yn archwilio a holi staff. Yn gyffredinol roeddent yn fodlon hefo'r trefniadau

mewn lle. Roeddent hwythau hefyd wedi treulio cyfran o'r diwrnod yn archwilio trefniadau COVID y Gwasanaeth.

## **Rhaglen Waith**

Mae rhan helaeth o raglen waith y tîm Iechyd Diogelwch a Llesiant wedi ei hatal ers gychwyn y pandemig oherwydd y pwysau gwaith y mae wedi ei greu. O'r herwydd, nid oes archwiliadau rhagweithiol wedi bod yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn ag eithrio nifer fechan er mwyn cynnal achrediad BSI Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol. Mae'r mwyafrif helaeth o'r cyrsiau Iechyd a Diogelwch hefyd wedi eu gohirio y llynedd ag eithrio dau gwrs statudol sef symud a thrin pwysau i'r maes gofal, a chymorth cyntaf i bob sector. Golyga hyn fod gwaith dail i fyny i gyrraedd ble oeddem wedi ei gyrraedd 18 mis yn ôl o ran hyfforddiant.

Un peth sydd wedi eu cynnal yn ystod y cyfnod yw cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr Undebau Llafur a'r cyflogwr i drafod yr holl faterion iechyd a diogelwch oedd yn codi o'r pandemig, ac mae rheiny wedi bod yn gadarnhaol o ffrwythlon iawn.

Yn ogystal, mae Iechyd a diogelwch wedi ei ddynodi fel blaenoriaeth gorfforaethol am y flwyddyn i ddoda bydd prosiect penodol yn cael ei lansio ddechrau'r Hydref.

## **Iechyd Meddwl a Llesiant Staff**

Mae cyfraniad y tîm Iechyd Galwedigaethol i'r argyfwng eisoes wedi ei grybwyll yng nghyd destun yr ymgynghoriadau 1 i 1 ar y gweithlu bregus. Yn ogystal â hynny wrth gwrs, mae'r holl sefyllfa tros y 18 mis diwethaf wedi rhoi carfannau o'r gweithlu dan bwysau sylweddol am wahanol resymau, boed hynny yn straen staff y cartrefi preswyl yn ceisio cynnal y gofal o dan ansicrwydd mawr ymdopi a marwolaethau, straen gweithwyr allweddol eraill ar y llinell flaen yn ofni am eu diogelwch, straen Prifathrawon yn ceisio cynnal Addysg plant tra fo gofynion ynysu yn taro swigod o fewn yr ysgol, neu'r unigrwydd y mae rhai wedi ei deimlo yn gweithio o adref.


Mae nifer o ymyraethau wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn i gefnogi y gweithlu, gan deilwro yr ymyrraeth hwnnw i wahanol garfannau. Cynhaliwyd y gwasanaeth Medra (Cwnsela) trwy gydol y cyfnod – yn rhithiol yn bennaf ar un pwynt, ond mae bellach wedi adfer i fod yn sesiynau wyneb yn wyneb hefyd. Gwnaed ymdrech eithriadol mewn rhai amgylchiadau i gynnal sesiynau wyneb yn wyneb hyd yn oed yng nghanol y ddwy don gyntaf ble oedd staff angen sesiynau 'de-brief' mwy dwys oherwydd digwyddiadau penodol yn y gwaith. Cynigwyd sesiynau 'de-brief' hefyd i staff cartrefi preswyl oedd wedi gweld achosion o'r feirws o fewn y cartref.

Mae sesiynau rhithiol wedi eu cynnal ar iechyd meddwl i staff sy'n gweithio o adref ac mae rhwydwaith eang o adnoddau a chefnogaeth wedi ei sefydlu ynghyd â negeseuon rheolaidd yn atgoffa am y gefnogaeth sydd ar gael trwy'r Uned Iechyd Galwedigaethol. Mae'r Uned Iechyd Galwedigaethol wedi cydweithio yn agos hefo'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu i roi pecyn cynhwysfawr mewn lle i gefnogi staff a rheolwyr a mae'r ymgyrch Camu Mlaen yn un enghraifft o'r gwaith yma ble roedd staff yn cael eu hannog i gymryd rhan

mewn sialens gerdded, a thynnu a rhannu llun eu cynefinau yn ystod y cyfnod clo er mwyn hybu llesiant.

Fel cydnabyddiaeth o fod wedi addasu i barhau i gynnig cefnogaeth i staff mewn dulliau gwahanol i'r arfer yng nghanol pandemig, bu i'r Cyngor gail ail ddilysu yr achrediad Safon Iechyd Corfforaethol yn gynnar yn 2021 a llwyddwyd i gynnal yr achrediad lefel Aur gyda cydnabyddiaeth o'r gwaith i gynnal y gefnogaeth iechyd i'r gweithlu tros ddwy don gyntaf y pandemig.

Mae'r tabl isod niferoedd yn dangos y cyfeiriadau i'r Uned tros y dair mlynedd ddiwethaf. Straen yn parhau i fod yw y prif reswm am y cyfeiriadau ynghyd a phroblemau cyhyrsgerbydol, ac yn gyffredinol fel yr amlinellir isod mae nifer y cyfeiriadau ar i fyny. Mae'r Uned yn gweld llawer o gyfeiriadau sydd ag ôl-ffaith COVID, boen yn 'long covid' neu broblemau iechyd meddwl ynghlwm a'r pandemig.



Un maes yn benodol ble fo cyfeiriadau wedi cynyddu yn sylweddol iawn yw'r nifer o gyfeiriadau i'r Gwasanaeth ffysiotherapi. Fel enghraifft, bu 5 cyfeiriad at y tim ffysiotherapi yn mis Mai 2019, 3 cyfeiriad yn Mis Mai 2020, a 32 yn Mis Mai 2021. Mae hynny yn gynydd sylweddol ac mae'n debyg fod sawl ffactor yn gyfrifol gan gynnwys mwy o staff yn gweithio o adref a rhestr aros hirach a rhestrau aros hir gan y GIG.

Fel arall, bu i'r rhaglen wylidwriaeth iechyd gael ei hoedi tros cyfnod cychwynnol y pandemig yn unol â chanllawiau AGID. Mae'r rhaglen honno bellach wedi ei hatgyfodi yn bennaf wyneb yn wyneb ond yr elfen 'spirometry' yn dal i fod ar ffurf asesiad papur am y tro oherwydd risgiau COVID. Mae hyn yn unol â chanllawiau AGID. Mae gwasanaethau eraill megis cydgyrdio brechiadau fflw i staff gofal cyn cyfnod y Gaeaf ayb wedi parhau.

## **4 BARN SWYDDOGION STATUDOL**

### **Y Swyddog Monitro**

Mae'r adroddiad yn esbonio fod y Cabinet a rôl o fewn ein fframwaith iechyd a diogelwch ac mae'n briodol ei fod yn derbyn y wybodaeth sydd yma er yn rhoi sicrwydd ynglŷn a'n trefniadau yn y maes pwysig yma.

### **Y Pennaeth Cyllid**

Nid yw'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant. Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.